Hawdd ei ddeall

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

Pam gwirfoddoli gyda ni

Gwybodaeth i bobl sydd eisiau gwirfoddoli gyda ni

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Llais**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Gwirfoddoli gyda ni a helpu i wella iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru'**.

Rhagfyr 2023

Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Dyma lyfryn hawdd ei ddeall. Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl Llais. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwefan: www.llaiscymru.org

E-bost: ymholiadau@llaiscymru.org

Ffôn: 02920 235 558

Gwnaeth Hawdd ei Ddeall Cymru y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.
Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247.

Cynnwys

Amdanom ni **4**

Pam gwirfoddoli gyda ni **5**

Pa wybodaeth sydd angen i chi ei wybod **7**

Rolau gwirfoddoli **8**

Casglwr adborth ar-lein 8

Gwirfoddolwr sy'n ymweld 9

Gwirfoddolwr ymgysylltu cymunedol 10

Gwirfoddolwr cynrychiolaeth 11

Mwy o wybodaeth **12**

Timau Llais Lleol 13

Amdanom ni

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llais wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru.

Ein gwaith ni ydy gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn gallu dweud eu dweud am:

- gwasanaethau iechyd
- a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Fe ddylai pobl gael y gwasanaethau yma mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw.

Rydyn ni yn annibynnol. Mae hyn yn meddwl nad ydyn ni yn cael ein dylanwadu na'n rheoli gan y llywodraeth.

Mae'r llyfryn yma yn dweud wrthych chi am wirfoddoli i ni.

Pam gwirfoddoli gyda ni

Mae gwirfoddoli yn meddwl gwneud gwaith i ni nad ydych yn cael eich talu amdano.

Fe fydd gwirfoddoli yn helpu i ddatblygu eich sgiliau.

Fe fyddwch yn ennill profiad a sgiliau rydych chi'n gallu eu rhoi ar eich CV.

Fe fyddwch yn cael cyfle i wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Fe fyddwn ni yn talu i chi am bethau fel teithio a bwyd wrth wirfoddoli i ni.

Mae ein rolau gwirfoddoli yn hyblyg. Rydych chi'n gallu gwneud beth rydych chi ei eisiau pan fydd yn fwyaf cyfleus i chi.

Pa wybodaeth sydd angen i chi ei wybod

Rydyn ni eisiau gwirfoddolwyr o bob cefndir gwahanol.

Mae gwirfoddolwyr yn rhan bwysig o'n gwasanaeth.

Fe fyddwn ni yn rhoi hyfforddiant i chi.

Mae gennym rolau gwirfoddoli gwahanol.

Fe fydd eich rôl gwirfoddoli yn hyblyg mewn ffordd sy'n addas i chi.

Rolau gwirfoddoli

Casglwr adborth ar-lein

Fe fyddwch chi yn casglu gwybodaeth am brofiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar-lein.

Rydych chi'n gallu gwneud hyn trwy fforymau ar-lein, adolygu gwefannau, cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau ymgynghori.

Mae digwyddiadau ymgynghori yn rhoi cyfle i bobl rannu beth maen nhw'n feddwl am bethau pwysig.

Mae'r rôl yma yn gweithio'n dda i bobl sydd eisiau gweithio gartref.

Gwirfoddolwr sy'n ymweld

Fe fyddwch chi yn cyfarfod â phobl neu eu teuluoedd a'u gofalwyr ar-lein neu'n bersonol.

Fe fyddwch chi yn trefnu ymweliadau mewn mannau sy'n darparu iechyd a gofal cymdeithasol.

Fe fyddwch chi yn siarad am beth maen nhw'n ei hoffi a beth sydd yn gallu bod yn well.

Gwirfoddolwr ymgysylltu cymunedol

Fe fyddwch chi yn ymuno â thîm Llais lleol.

Fe fyddwch chi yn cyfarfod â phobl ar-lein ac yn bersonol yn y gymuned.

Rydych chi'n cael gwybod beth mae pobl yn feddwl a'u profiadau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol.

Gwirfoddolwr cynrychiolaeth

Fe fyddwch chi yn cynrychioli Llais mewn cyfarfodydd.

Fe fyddwch chi yn dweud beth rydych chi'n feddwl yn y cyfarfodydd pan fo angen.

Fe fyddwch chi yn cymryd nodiadau o'r cyfarfod ac yn adrodd yn ôl i ni.

Mwy o wybodaeth

Rydych chi'n gallu darganfod mwy amdanom trwy:

- Cysylltu â'ch tîm Llais lleol
- Edrych ar ein gwefan: www.llaiscymru.org

Mae'r daflen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Rydych chi'n gallu cysylltu â ni yn Gymraeg neu Saesneg. Fe fydd yn cymryd yr un faint o amser i ni eich ateb yn Gymraeg neu Saesneg.

Os ydych chi eisiau'r ddogfen yma mewn fformat neu iaith wahanol, cysylltwch â ni.

Rydych chi hefyd yn gallu lawrlwytho'r ddogfen yma o'n gwefan: www.llaiscymru.org

Timau Llais Lleol

Caerdydd a Bro Morgannwg

Yn cynnwys Caerdydd a Bro Morgannwg.

Ffôn: 029 2075 0112

E-bost: cardiffandvaleenquiries@llaiscymru.org

Cwm Taf Morgannwg

Yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Ffôn: 01443 405830

E-bost: cwmtafmorgannwgenquiries@llaiscymru.org

Gwent

Yn cynnwys Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen.

Ffôn: 01633 838516

E-bost: gwentenquiries@llaiscymru.org

Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe

Yn cynnwys Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Ffôn: 01639 683490

E-bost: nptandswansea.enquiries@llaiscymru.org

Timau Llais Lleol

Gogledd

Sir y Fflint, Sir Ddinbych,

Wrecsam, Conwy, Ynys Môn a Gwynedd.

Ffôn: 01978 356178 / 01248 679284

E-bost: northwalesenquiries@llaiscymru.org

Powys

Yn cynnwys Sir Drefaldwyn, Brycheiniog a Maesyfed.

Ffôn: 01874 624206 / 01686 627632

E-bost: powysenquiries@llaiscymru.org

Gorllewin Cymru

Yn cynnwys Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Ffôn: 01646 697610

E-bost: westwalesenquiries@llaiscymru.org

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care